# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Glangarnant House (Oedolion Iau)**

**Glan Garnant**
**Heol Neuadd**
**Rhydaman**
**SA18 1UF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/10/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Glangarnant House (Oedolion Iau)

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Swanton Care and Community (Maesteilo Care Homes) Ltd a Swanton Care & Community Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 9 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Ebrill 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae Glangarnant House yn wasanaeth croesawgar iawn sy'n darparu llety a chymorth ar gyfer oedolion iau sydd ag anghenion cymorth unigol yn ardal dawel a gwledig Rhydaman. Caiff y bobl eu cefnogi gan staff cyson sy'n llawn cymhelliant a thîm rheoli sy'n anelu at gyfoethogi bywydau'r bobl. Mae'r bobl yn hapus a bodlon yn y cartref a gallant wneud y pethau sydd o bwys iddynt. Mae'r bobl wedi gwneud ffrindiau gwych gydag eraill sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth ac mae rhai wedi bod ar wyliau gyda'i gilydd. Mae'r cynlluniau personol wedi eu hysgrifennu'n dda ac yn cynnwys canllawiau clir i'r staff ddeall y ffordd orau o gefnogi'r bobl i gynnal eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl. Mae'r staff yn cynnwys y bobl cymaint â phosibl wrth wneud penderfyniadau ac adeiladu eu hannibyniaeth.

Mae'r gwasanaeth wedi ei leoli mewn gerddi mawr gydag iard ddiogel gaeedig sydd wedi ei haddurno â murluniau lliwgar o hoff gymeriadau'r bobl. Mae'r llety yn lân, mewn cyflwr da, yn fawr ac mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli i ddiwallu anghenion pob unigolyn.

Mae gan y cartref reolwr a dirprwy ymroddedig iawn sy'n anelu at ragoriaeth yn y gwasanaeth ac yn y gymuned ehangach. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Mae diwylliant cadarnhaol a thosturiol iawn yn y gwasanaeth sydd dan arweiniad y rheolwyr ac yn sicrhau bod y bobl yn cael y profiadau gorau posibl. Mae'r tîm o staff cyson wedi eu hyfforddi i safon uchel ac yn adnabod y bobl maent yn rhoi cymorth iddynt yn dda iawn i ddatblygu eu hyder a'u hannibyniaeth.

## Llesiant

Mae gan y bobl lais ac maent yn profi ansawdd bywyd rhagorol yn Glangarnant House. Maent yn cael profiadau cyffrous a hwyliog gydag eraill a staff gofal sy'n eu cefnogi i ehangu eu potensial. Mae'r bobl yn cymryd camau i gyflawni eu nodau ac yn dod yn fwy annibynnol ac yn magu hyder wrth fyw yn y gwasanaeth. Mae'r bobl yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi'r gweithgareddau a gynhelir, gan gynnwys teithiau cerdded elusennol, gwyliau tramor a mwy. Mae'r bobl yn mwynhau dathlu digwyddiadau yn y gwasanaeth ac mae ganddynt bartïon i edrych ymlaen atynt. Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff gofal cyson sy'n eu hadnabod yn dda sy'n annog prosesau cyfathrebu da drwy ystumiau a dulliau dieiriau.

Caiff y bobl gefnogaeth dda iawn i reoli eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl. Mae gweithdrefnau da ar waith i reoli meddyginiaeth yn y gwasanaeth. Mae cofnodion da ar waith i fonitro unrhyw broblemau iechyd a allai fod gan y bobl a phrosesau dilynol sydd eu hangen. Mae cynlluniau personol yn nodi'r ffordd orau o gefnogi'r bobl pan fydd anghenion gwahanol yn codi ac mae asesiadau risg ar waith er mwyn cefnogi hyn. Mae'r bobl yn cyfrannu at y broses o addurno'r gwasanaeth ar gyfer partïon a digwyddiadau gan roi ymdeimlad o berthyn iddynt. Mae gan y bobl weithwyr allweddol cyfarwydd a phenodedig sy'n gallu adnabod newidiadau yn eu personoliaeth a'u hymddygiad ac yn gallu cyfathrebu mewn ffordd i ddeall unrhyw gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen. Mae gwasanaethau meddygol ac arbenigol ar gael i'r bobl i hybu eu hiechyd a'u llesiant.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod. Mae nodweddion diogelwch ar waith yn yr adeilad i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae llyfr cofrestru i'r holl ymwelwyr ei gwblhau pan fyddant yn cyrraedd ac yn gadael y cartref. Mae iard awyr agored ddiogel ar gael i'r bobl fwynhau ardal awyr agored. Caiff ardaloedd a dybir i fod yn anniogel fel yr ystafell feddyginiaeth a'r ystafell golchi dillad eu cadw dan glo pan nad oes aelod o staff yn bresennol. Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith ar gyfer y bobl nad oes ganddynt y gallu i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u llety. Mae staff gofal yn destun gwiriadau, goruchwylio a hyfforddiant cadarn cyn ac yn ystod eu cyflogaeth i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas ar gyfer y swydd.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Caiff digwyddiadau Cymreig eu dathlu yn y gwasanaeth, fodd bynnag nid oes siaradwyr Cymraeg yn byw yn y gwasanaeth ar hyn o bryd. Er hyn, mae sawl aelod o'r staff a'r tîm rheoli yn siaradwyr Cymraeg, felly os bydd yr angen am hyn yn newid, byddai'r bobl yn gallu cael eu holl anghenion gofal yn Gymraeg neu'r rhan fwyaf ohonynt.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth cyson o safon dda. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt yn dda iawn ac yn deall beth sy'n bwysig iddynt. Mae cynlluniau personol yn casglu'r wybodaeth hon yn dda a chaiff strategaethau eu cynnwys ar sut i drin pobl pan fydd anghenion gwahanol yn codi. Mae asesiadau risg wedi'u personoli ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw risgiau yn cael eu lleihau cymaint â phosibl.
Caiff cynlluniau personol ac asesiadau risg eu hadolygu'n rheolaidd, cadarnhaodd cynrychiolwyr teulu eu bod yn cymryd rhan yn hyn a chanmolwyd y gwasanaeth ar ei lefel dda o gyfathrebu gyda hwy. Mae'r gwasanaeth yn llunio adroddiad personol bob chwe mis ar gyfer pob unigolyn sy'n cael ei gefnogi sy'n amlygu ei holl gyflawniadau yn y chwe mis diwethaf ac yn pennu nodau newydd ar gyfer y dyfodol.

Mae'r bobl wedi meithrin cydberthynasau da ag eraill a gyda'r tîm gofal sy'n eu cefnogi. Gwelsom drafodion cadarnhaol a chysurlon yn digwydd drwy gydol yr ymweliad. Yn yr un modd, roedd hyn hefyd yn digwydd yn swyddfeydd y rheolwyr lle gallai'r bobl ymweld â'r timau rheoli a rhyngweithio mewn ffordd ystyrlon. Mae gan y bobl weithwyr allweddol penodedig sy'n eu cydnabod ac yn eu gwerthfawrogi. Mae'r bobl wedi gwneud ffrindiau da gydag eraill yn y gwasanaeth, ac maent yn mwynhau treulio amser gyda'i gilydd, mae rhai wedi bod ar wyliau tramor gyda'i gilydd ac yn mwynhau parti tŷ yn rheolaidd. Mae pwyslais cryf ar deulu yn y gwasanaeth a chaiff cydberthnasau gyda theulu ei annog a'i groesawu. Mae'r tîm gofal yn annog y bobl i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd drwy alwadau ffôn ac ymweliadau â'r gwasanaeth ac ymweliadau â nhw yn uniongyrchol.

Mae gweithdrefnau da ar waith i reoli meddyginiaeth yn y gwasanaeth. Mae ystafell feddyginiaeth ddynodedig sy'n cael ei chadw ar glo pan nad oes staff yn yr ystafell. Mae'r ystafell yn daclus ac mae gweithdrefnau gor-stoc a nwyddau ar waith er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth yn cael ei storio yn yr amodau gorau phosibl fel gwiriadau tymheredd, ffaniau ac nid oes meddyginiaethau yn cael eu cadw allan yng ngolau dydd. Gwnaethom edrych ar y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (MAR) a gwelsom fod yr holl feddyginiaeth yn cael ei chofnodi'n gywir gyda gwrthlofnodion ar waith pan fo angen. Nid oedd bylchau yn y cofnodion a welsom. Mae cofnodion da ar gyfer defnyddio meddyginiaeth pan fo angen (PRN). Mae gweithdrefn dda ar waith ar gyfer archebu ac archwilio lefelau stoc sy'n lleihau'r risg o wallau. Mewn ffeiliau gofal, gwelsom ddogfennaeth yn dangos bod y bobl yn cael eu cefnogi i fynd i apwyntiadau meddygol, a chaiff unrhyw ganlyniadau neu gyfarwyddiadau eu nodi a'u gweithredu.

Gall y bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r gwasanaeth yn darparu cylchlythyr misol i deulu a ffrindiau sy'n llawn o luniau o'u hanwyliaid yn gwneud pethau y maent yn eu mwynhau. Gwelsom fod y bobl yn cael eu hannog i feithrin sgiliau newydd fel coginio a nofio. Mae'r bobl yn mynd allan ar deithiau i lefydd sydd o ddiddordeb iddynt, ac roedd llawer o luniau i'w gweld o bawb ar y teithiau. Caiff y bobl eu hannog i fynd am dro a mwynhau'r ardaloedd awyr agored yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp a gweithgareddau un i un yn y gwasanaeth gyda'u staff gofal. Yn ystod yr arolygiad, roedd y

bobl yn helpu'r staff gofal i addurno'r gwasanaeth ar gyfer Calan Gaeaf a chawsom wybod bod y bobl wir yn mwynhau partïon yn y gwasanaeth.

## Yr Amgylchedd

Caiff y bobl gefnogaeth mewn amgylchedd cartrefol a chyfforddus sy'n diwallu eu hanghenion. Mae Glangarnant House yn adeilad sengl mawr, sydd wedi'i leoli ar ei dir ei hun. Mae'r rhan fwyaf o'r ystafelloedd gwely yn y prif adeilad gyda thri fflat unigol y gellir eu cyrraedd drwy iard gaeedig. Mae llefydd parcio ar gael i'r staff a pherthnasau. Mae gan bob ystafell gyfleusterau en-suite neu ystafell ymolchi ar wahân. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i leoli dros ddau lawr gyda'r rhan fwyaf o'r ystafelloedd gwely i fyny'r grisiau yn ogystal â'r ystafell feddyginiaeth. Mae'r holl ardaloedd cymunedol ar y llawr gwaelod gan gynnwys lolfa fawr, ystafell fwyta, cegin a lolfa fach. Ar ddiwrnod yr ymweliad arolygu roedd y lolfa fawr yn cael ei haddurno ar gyfer Calan Gaeaf gan y bobl gyda chymorth y staff. Gall ymwelwyr gael mynediad at y gwasanaeth drwy'r brif fynedfa o flaen yr adeilad sy'n cael ei chloi a'i hagor o'r tu mewn i'r adeilad. Mae cyntedd bach gyda llyfr cofrestru i'w gwblhau wrth gyrraedd a gadael yr adeilad. Mae swyddfa'r rheolwr hefyd ar y llawr gwaelod gyda system glo bysellbad. Mae cyfleusterau golchi dillad mewn adeilad allanol sydd hefyd yn cael ei gloi gydag allwedd diogel ar waith. Caiff y bobl eu cefnogi i gymryd rhan gyda'u dyletswyddau golchi dillad personol pan fyddant yn gallu, fodd bynnag caiff hyn ei wneud gyda chefnogaeth. Wrth ymyl yr ystafell golchi dillad mae'r cypyrddau ar gyfer rheoli sylweddau peryglus i iechyd (COSHH) a chofnodion wedi'u harchifo.
.
Mae iard fawr yng nghefn ac ar ochr yr eiddo i bobl fwynhau awyr iach mewn tywydd cynnes. Mae murluniau hardd o hoff gymeriadau'r bobl wedi eu paentio ar waliau'r fflatiau yn yr iard, mae'r fflatiau wedi eu cyflwyno'n dda ac wedi'u teilwra at hoff bethau a chwaeth yr unigolyn ac wedi'u personoli'n dda. Mae'r ystafelloedd gwely yn y prif adeilad hefyd yn adlewyrchu cymeriad ac anghenion unigol y bobl yn dda iawn. Mae'r ystafell golchi dillad wedi ei threfnu'n dda, ac mae'r peiriannau i gyd yn gweithio'n dda. Cafodd y gwasanaeth radd 5, sy'n dda iawn, gan Wasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yn eu hymweliad diweddaraf â'r gegin.

Mae gweithdrefnau da ar waith i nodi a lliniaru'r risgiau iechyd a diogelwch yn y gwasanaeth. Caiff gwiriadau cynnal a chadw eu cynnal yn rheolaidd o amgylch y safle i sicrhau bod y bobl yn cadw'n ddiogel. Mae'r ffeil cynnal a chadw yn nodi'r gwiriadau hyn gan gynnwys gwiriadau diogelwch tân a gwiriadau dŵr poeth/oer. Gwelsom fod yr holl gyfleustodau a'r gwaith i'w gwasanaethu yn gyfredol gan gynnwys tanwydd hylifol a thrydan. Dangoswyd hyn yn y tystysgrifau a welwyd. Cynhelir gwiriadau amgylcheddol hefyd gan y rheolwr yn ddyddiol a'r Unigolyn Cyfrifol yn ystod ei ymweliadau rheolaidd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm rheoli rhagorol. Mae ethos cadarnhaol a chefnogol iawn yn y gwasanaeth sy'n cael ei gymell gan reolwr a dirprwy ymroddedig.
Maent yn darparu ymdeimlad o sefydlogrwydd yn y cartref ac yn meithrin diwylliant sy'n hyrwyddo agwedd gadarnhaol a llwyddiant. Ymysg y sylwadau gan y staff gofal mae "*I'm happy with everything, staff morale is great, communication is really good*", "*I worked here years ago and had to come back as I just belong here".* Mae'r rheolwr a'r dirprwy yn cwblhau archwiliadau rheolaidd yn y gwasanaeth i sicrhau bod popeth yn iawn gan gynnwys proses samplu ar hap o'r ffeiliau gofal a'r ffeiliau personél, rheoli heintiau a diogelwch a mwy. Mae'r gwasanaeth yn uchel ei barn yn y gymuned ehangach am gefnogi digwyddiadau lleol fel rhoi i fanc bwyd lleol, cynnal digwyddiad elusennol fel dringo Pen y Fan a phlymio awyr i godi arian i elusennau lleol sydd o bwys i'r rheiny sy'n cael eu cefnogi yn y gwasanaeth.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff ardderchog a llawn cymhelliant sy'n teimlo fel rhan o dîm agos gyda gwerthoedd cryf. Mae'r holl staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn amlwg yn mwynhau gweithio yng Nglangarnant ac mae ganddynt gydberthynas agos iawn â'r bobl y maent yn eu cefnogi. Mae gan y rheolwr bolisi drws agored fel bod unrhyw broblemau yn gallu cael eu trafod wrth iddynt godi. Dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw bod y rheolwr yn hawdd iawn mynd ato ac maent yn teimlo eu gwrandewir arnynt. Gwnaethom edrych ar dair ffeil personél. Gwelsom fod yr holl ddogfennau gofynnol i recriwtio'n ddiogel ar waith gan gynnwys gwiriadau adnabod, a gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae cofnodion hyfforddiant yn nodi bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cael yr holl hyfforddiant diweddaraf sydd ar gael iddynt. Cynhelir sesiynau goruchwylio yn rheolaidd ynghyd ag arfarniadau blynyddol. Mae bron bob aelod o'r staff gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu, neu'n gweithio tuag at gofrestru. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu cydnabod am eu gwaith caled a'u hymroddiad gan y darparwr. Gwelsom lythyrau unigol yn cael eu dosbarthu i ddiolch i'r staff gofal yn ystod yr arolygiad.

Mae trefniadau goruchwylio cyson ac effeithiol dros ben ar waith i'r gwasanaeth. Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn effeithiol, sy'n cael eu darllen a'u llofnodi gan bob aelod o'r staff i gadarnhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd, yn arsylwi ar ofal, ac yn siarad â'r staff gofal a'r tîm rheoli i gael adborth er mwyn ysgogi gwelliannau. Caiff yr ymweliadau hyn eu cofnodi mewn adroddiadau chwarterol a chaiff unrhyw gamau eu nodi. Caiff adolygiadau o ansawdd y gofal eu cwblhau ddwywaith y flwyddyn yn ôl yr angen ac mae ymgyrch barhaus yn y gwasanaeth i ddarparu gwasanaeth da iawn ac anelu at ragoriaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/11/2024